



YSGOL GYNRADD GYMRAEG Tan-y-lan

Polisi Ymddygiad Cadarnhaol

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth wraidd cynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, yn ogystal ag addysgu am hawliau plant, rydym yn enghreifftio hawliau a pharch ym mhob perthynas – yn gysylltiedig ag Erthyglau 3, 12 (CCUHP).

Nodau a Disgwyliadau

Un o brif nodau ein hysgol yw bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo'n ddiogel, wedi'i werthfawrogi a'i barchu, a bod pob plentyn yn cael ei drin yn deg ac yn dda. Rydym yn gymuned ofalgar, y mae ei gwerthoedd wedi'u hadeiladu ar ymddiriedaeth o'r ddeutu a pharch at bawb. Felly, lluniwyd polisi ymddygiad yr ysgol i gefnogi'r ffordd y gall pob aelod o'r ysgol fyw a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gefnogol. Ei nod yw hyrwyddo amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n hapus, yn sicr ac yn ddiogel. Cyfrifoldeb yr holl staff yw hyrwyddo ymddygiad da.

Mae gan yr ysgol nifer o reolau. Mae hyn yn golygu hyrwyddo perthnasoedd da, fel y gall pobl weithio gyda'i gilydd â'r un nod, sef helpu pawb i ddysgu. Mae'r polisi hwn yn cefnogi cymuned yr ysgol wrth geisio galluogi pawb i weithio gyda'i gilydd mewn ffordd effeithiol ac ystyriol.

Mae'r ysgol yn disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol ymddwyn mewn ffordd ystyriol tuag at eraill.

Rydym yn trin pob plentyn yn deg ac yn dilyn y polisi ymddygiad hwn mewn ffordd gyson.

Mae'r ysgol yn gwobrwyo ymddygiad da, gan ei bod yn credu y bydd hyn yn datblygu ethos o garedigrwydd a chydweithredu. Lluniwyd y polisi hwn i hyrwyddo ymddygiad da, yn hytrach nag atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn unig.

Mae gan athrawon yr hawl i addysgu ac mae gan ddisgyblion yr hawl i ddysgu mewn ystafell ddosbarth heb ymddygiad aflonyddgar – ystafell ddosbarth sy'n adlewyrchu disgwyliadau ymddygiadol yr athro ei hun ac yn creu awyrgylch lle gall hunan-barch disgyblion ffynnu.

Côd 4 Rhaid Gwneud Ysgol Gymraeg Tan-y-lan


Mae'r holl rhanddeiliaid yr ysgol wedi gyd weithio i greu cynllun personol ar gyfer defnyddio ar draws yr ysgol ar gyfer dathlu ymddygiad positif/gwych ac i osgoi problemau ac ymddygiad annerbyniol. Drwy canlyniad i'r holl waith yma

fe naeth aelodau or gyngor ysgol a'r swyddog lles ac ymrwymiad teuliol greu adnoddau gweledol ar gyfer defnyddio ymhob dosbarth ac ar draws yr ysgol.

Pennodwyd Côd 4 datganiad ar gyfer yr ysgol

1. Daythlu ein cymreictod
2. Derbyn cyfrifoldeb
3. Dangos parch
4. bod yn fodlon ac yn barod

gwelwyd yr 4 datganiad yma(4 rhaid gweud) wedi arddangos o gwmpas yr ysgol/bob dosbarth er mwyn atgoffa'r holl disgyblion or hyn sydd yn ddisgwyliedig ganddynt yn yr ysgol.



i gyd fynd ar ddatganiadau 4 rhaid gwneud mae'r cyngor ysgol wedi ysgolion ymddygiad ar gyfer defnyddio yn ein dosbarthiadau. Bwriad yr ysgolionYmddygiad yma i'w rhoi adnodd gweladwy sydd yn dangos y camau clir ar y daith ymddygiad dyddiol.

Mae bob plentyn yn dechrau yn ddyddiol ar y cam 'barod i ddysgu' - mae'r Sgil o hunain rheolaeth yn galluogi bob unigolion i wneud penderfyniadau am sut maent yn mynd i ymddwyn yn Ddyddiol. Mae'r camau wedi ei osod gan y disgyblion ar y cyd a'r athrawon Drwy ddefnyddio llais y plentyn fel rhan o'r cynllunio mae hyn wedi galluogi perchnogaeth i'r systemau ar adnoddau yma. Mae gan bob disgybl peg sydd yn symud i fynnu neu i lawr yr ysgol yn ôl y galw. Mae yn ddisgwyliedig bod y plant yn rhan o'r drafodaeth ac yn deall pam maent y symud ar yr ysgol.

Rheolau Cyffredinol yr Ysgol

1.Mae bwlio a hiliaeth bob amser yn ymddygiad annerbyniol. Yn ffodus, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ein hysgol yn dangos agwedd ofalgar, gyfrifol.



2. Disgwylir i blant fod yn gwrtais ac yn gymwynasgar ar bob adeg. Nid yw ymddygiad peryglus ac anghyfrifol, rhegi ac iaith fras yn dderbyniol.
3. Disgwylir i blant gerdded yn yr ysgol ac ildio neu ddal drysau ar agor i blant iau ac oedolion.
4. Er mwyn cadw'r ysgol mor "wyrdd" ag y bo modd, mae sbwriel i'w roi yn y cynwysyddion a ddarperir yn yr ysgol. Rydym yn ailgylchu papur, cartonau llaeth, cetrir argraffu a batris. Rydym yn diffodd trydan pan nad oes ei angen. Rydym yn compostio, yn cau drysau ac yn cau tapiau ar ôl eu defnyddio.
5. Ni chaniateir i blant ddod â theganau neu gemau (gan gynnwys peli) i'r ysgol, ac eithrio gyda chaniatâd arbennig, e.e. fel rhan o brosiect dosbarth. Os byddwch yn anufuddhau, a bydd eich eiddo'n diflannu neu'n cael eu torri, ni fydd yr ysgol yn gyfrifol.
6. Ni chaniateir gwm cnoi a lolipops yn yr ysgol.
7. Ni ddylai plant fod yn adeiladau'r ysgol cyn i'r ysgol ddechrau, ar ôl i'r ysgol orffen neu yn ystod amser chwarae, ac eithrio gyda chaniatâd arbennig.
8. Ni ddylai plant ddod i'r ysgol cyn 8.40am, oni bai eu bod yn mynd i'r Clwb Brecwast.
9. Disgwylir i blant newid dillad ar gyfer A.G., Nofio a Gemau. A.G. dan do: Siorts a chrys T ar gyfer gwaith cyfarpar. A.G., Gemau yn yr awyr agored: Mae angen newid o ddillad, neu ni chaniateir i blant gymryd rhan yn y wers
D.S. Nid yw gemwaith i'w wisgo yn ystod gwersi A.G. a Gemau
10. Os yw plentyn yn absennol, neu os disgwylir iddo fod yn absennol, mae angen esboniad gan y rhieni, yn ysgrifenedig neu ar lafar.

Gwobrau a Chosbau

Rydym yn canmol ac yn gwobrwyo plant am ymddygiad da mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- mae athrawon yn llongyfarch plant
- bob wythnos, rydym yn cynnal 'Gwasanaeth Gwobrwyo' lle gwobrwyir plant ym mhob dosbarth am eu hymdrechion
- mae athrawon dosbarth yn rhoi sticeri a stampiau personol i gydnabod ymdrech, ymddygiad da etc.

Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o gosbau i orfodi rheolau'r ysgol, ac i sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol. Rydym yn defnyddio dulliau a strategaethau Arfer Adferol i drafod canlyniadau i ddigwyddiadau. Rydym yn defnyddio pob cosb yn briodol yn ôl pob sefyllfa unigol.

Rydym yn disgwyl i blant wrando'n astud ar gyfarwyddiadau mewn gwersi. Os na wnânt hyn, rydym yn gofyn iddynt symud yn nes at yr athro, neu i eistedd ar eu pennau eu hunain.

Rydym yn disgwyl i blant wneud eu gorau ym mhob gweithgaredd. Os na wnânt hyn, efallai y gofynnwn iddynt ailwneud tasg.

Os yw plentyn yn aflonyddgar yn y dosbarth, mae'r athro'n ei geryddu. Os yw plentyn yn camymddwyn dro ar ôl tro, rydym yn ei ynysu rhag gweddill y dosbarth nes iddo dawelu ac mae mewn sefyllfa i weithio'n synhwyrol eto gydag eraill.

Diogelwch y plant sydd bwysicaf ym mhob sefyllfa. Os yw ymddygiad plentyn yn peryglu diogelwch pobl eraill, mae athro'r dosbarth yn stopio'r gweithgaredd ac yn atal y plentyn rhag cymryd rhan am weddill y sesiwn honno.

Os yw plentyn yn bygwth, yn brifo neu'n bwlio disgybl arall, mae athro'r dosbarth yn trafod yr achos â'r plentyn sydd wedi'i fwlio a'r plentyn sydd wedi'i gosbi. Os yw plentyn yn ymddwyn mewn ffordd sy'n aflonyddu ar eraill neu'n eu cynhyrfu dro ar ôl tro, bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni'r plentyn ac yn trefnu apwyntiad er mwyn trafod y sefyllfa, gan geisio gwella ymddygiad y plentyn.

Mae athro'r dosbarth yn trafod rheolau'r ysgol a nodau'r ysgol â phob dosbarth. Yn ychwanegol at reolau'r ysgol, mae pob athro'n defnyddio strategaethau a thactegau amrywiol i annog ymddygiad ac agwedd gadarnhaol yn ei ystafell ddosbarth ei hun. Yn y ffordd hon, mae pob plentyn yn yr ysgol yn gwybod safon yr ymddygiad rydym yn ei disgwyl yn ein hysgol. Os oes achosion o ymddygiad amhriodol, mae athro'r dosbarth yn trafod y rhain â'r dosbarth cyfan ar yr adeg gyfleus gynharaf.

Nid yw'r ysgol yn goddef bwlio o unrhyw fath. Os ydym yn darganfod bod gweithred o fwlio neu ddychryn wedi digwydd, rydym yn gweithredu ar unwaith i atal rhagor o'r fath ymddygiad. Er ei bod yn anodd iawn cael gwared ar fwlio, rydym yn gwneud popeth yn ein pŵer i sicrhau bod pob plentyn yn mynd i'r ysgol heb ofn.

Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rheoliadau ynglŷn â defnydd grym gan athrawon, a bennwyd yng Nghylchlythyr 10/98 DfEE (Adran Addysg a Chyflogaeth), ynglŷn ag adran 550A Deddf Addysg 1996: Defnydd Grym i Reoli neu Atal Disgyblion. Mae staff yn ymyrryd yn gorfforol dim ond i atal plant neu i atal anaf i blentyn, neu os yw plentyn mewn perygl o frifo'i hun, neu aelod o staff. Mae'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd yn unol â chanllawiau llywodraeth/awdurdod lleol ar atal plant.

Mewn achosion camymddwyn mwy difrifol, disgwylir i rieni gymryd rhan mewn trafodaethau ac mewn cytundebau, contractau a chynlluniau ymddygiad ynglŷn ag ymddygiad eu plant yn y dyfodol. Byddai hyn hefyd yn cynnwys rhoi cosbau difrifol ar waith, gan gynnwys achosion lle mae angen gwahardd plant o'r ysgol – dros dro neu'n barhaol.

Iard chwarae

Mae rheolau'r iard chwarae'n berthnasol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, ar amser chwarae ac amser cinio. Mynegir y pum rheol ychydig yn wahanol fel:

Nid yw bwllo a diffyg parch yn dderbyniol ar unrhyw adeg ac mae'n rhaid dilyn y rheolau canlynol –

1. Dim ymladd.
2. Dim cam-drin llafar.
3. Dim diffyg parch neu ddifrod i eiddo.
4. Dim bod yn rhywle na ddylech fod.
5. Dim gadael yr ysgol heb ganiatâd.

Er mwyn mynd i'r afael â dysgu pwysig ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol, dylai athrawon atgoffa'r disgyblion yn rheolaidd am union ystyr y termau hyn. Helpodd y disgyblion eu hunain i nodi'r camymddwyn fel a ganlyn:

1. **YMLADD** – unrhyw gam-drin llafar, a nodir ar y cyd fel DWYLO/BREICHIAU – slapio, bwrw, dyrnu, pinsio, sgramio, gwthio, procio, tynnu gwallt, penelino, swingio eraill o gwmpas, codi eraill a'u gollwng.

TRAED/COESAU – cicio, baglu, pen-glinio, stampio, troedio ar fysedd troed.
CEGAU – cnoi, poeri, cusanu.
ARALL – gwthio'ch ffordd, bympio, pwnio.
2. **CAM-DRIN LLAFAR** – dangos diffyg parch tuag at unrhyw ddisgybl neu oedolyn, trwy wawdio'n angharedig. Caiff rhegi ei drin fel mater ar gyfer cosb arbennig o gryf.

Ni ddylid caniatáu 1 a 2 yng nghyd-destun chwarae chwaith. Gofynnir i'r disgyblion roi gwybod am broblemau neu bryderon megis camdriniaeth a bwllo i **unrhyw** oedolyn sy'n goruchwyllo.

3. **DIFFYG PARCH AT EIDDO** – ni oddefir cuddio neu ddifrodi eiddo disgyblion eraill megis cuddio cotiau, taflu cotiau neu fagiau i lawr y toiled, cicio pêl rhywun arall i ardd yn fwriadol. Mae'r un peth yn berthnasol i adeilad ac amgylchedd yr ysgol, megis cicio drysau, rhwygo gwaith ar ddangos, dwyn blychau cinio neu flychau penseli etc. disgyblion eraill neu ymyrryd â nhw. Trinnir ymyrryd â larymau tân a chyfarpar diffodd tân yn ddifrifol a chaiff ei gosbi'n unol â hynny.
4. **TRESMASU I RYWLE HEB GANIATÂD** – mae diogelwch a diogeledd pob plentyn yn ein gofal o'r pwys mwyaf. Ni chaniateir dychwelyd i'r **ystafelloedd dosbarth** heb ganiatâd neu oruchwyliaeth wedi'i warafun o

gwbl. Efallai y bydd disgyblion sy'n dost yn cael aros yn y brif fynedfa. Dim ond disgyblion â chaniatâd penodol fydd yn cael aros yma.

5. **GADAEI SAFLE'R YSGOL** – mae disgyblion sy'n gadael yr ysgol, heb ganiatâd neu roi gwybod, yn rhoi eu hunain mewn perygl annerbyniol. Mae'n rhaid i ddisgyblion sy'n cael problemau yn ystod amser chwarae neu amser cinio roi gwybod am eu hanawsterau i'r oedolion ar ddyletswydd sy'n goruchwyllo, sy'n gorfod ystyried y problemau'n ddifrifol. Os bydd angen, bydd athrawon eraill, neu'r pennaeth os ydynt yn ddigon difrifol, yn ymchwilio i bryderon disgyblion. Nid yw disgyblion, ar unrhyw adeg o'r dydd, yn gadael y safle heb ganiatâd, i fynd adref at rieni, perthnasau, ffrinidiau, cymdogion etc. Bydd disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb ganiatâd, am ba reswm bynnag, bob amser yn cael eu cosbi'n unol â hynny. Bydd rhieni a'r heddlu'n cael eu ffonio gan fod y plentyn yn berson coll.

Mae'n rhaid i ddisgyblion sy'n gwrthod neu'n dewis peidio â chydymffurfio â'n disgwyliadau ohonynt ddisgwyl i'r ysgol gymryd camau gweithredu yn erbyn eu hymddygiad amhriodol. Mae'n well gennym fynegi ein cosbau fel canlyniadau. Yn y ffordd hon, mae disgyblion yn deall bod canlyniadau'n ymwneud â dewis. Caiff disgybl, felly, ddewis neu beidio â dewis canlyniad.

Mae canlyniadau'n cael eu **dewis** dim ond os yw disgybl yn **dewis** torri rheolau'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithredoedd ac ymddygiad amhriodol ac annerbyniol.

Cynnwys disgyblion wrth gefnogi ymddygiad

Mae'r ysgol yn gweithredu cynllun cefnogi cyfoedion ar amser egwyl i gefnogi disgyblion iau ar yr iard. Mae Cyngor yr Ysgol wedi dyfeisio Ysgolion a Côt Ymddygiad sy'n sicrhau cysondeb wrth ymdrin â chamymddygiad. Dewis y mae'r disgybl wedi'i wneud yw torri'r côd ac mae'n hollol ymwybodol o'r canlyniadau. Dangosir y ysgolion a'r côd hwn ym mhob ystafell ddosbarth, mae'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i gyfleu i ddisgyblion trwy wasanaeth a arweinir gan y pennaeth a'r cyngor. (Atodiad 1)

Hyfforddiant Staff

Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ym maes rheoli ymddygiad heriol.

Rôl yr athro dosbarth/athrawes ddosbarth

Athro/Athrawes y dosbarth sy'n gyfrifol am sicrhau bod rheolau'r ysgol yn cael eu gorfodi yn ei dd/dosbarth, a bod ei dd/dosbarth yn ymddwyn yn gyfrifol yn ystod gwersi.

Mae gan yr athrawon dosbarth yn ein hysgol ni ddisgwyliadau uchel gan y plant o ran ymddygiad, ac maent yn ceisio sicrhau bod yr holl blant yn gweithio hyd eithaf eu gallu.

Mae athro'r dosbarth yn trin pob plentyn yn deg ac yn gorfodi strategaethau'r ystafell ddosbarth yn gyson. Mae'r athro'n trin pob plentyn yn ei ddosbarth â pharch a dealltwriaeth.

Os yw plentyn yn camymddwyn dro ar ôl tro yn y dosbarth, mae athro'r dosbarth yn cadw cofnod. Yn yr achos cyntaf, mae athro'r dosbarth yn ymdrin â digwyddiadau. Fodd bynnag, os yw'r camymddygiad yn parhau, mae athro'r dosbarth yn ceisio help a chynghor gan y pennaeth.

Mae athro'r dosbarth, trwy'r cydlynnydd AAA, yn cysylltu ag asiantaethau allanol i gefnogi ac arwain cynnydd pob plentyn.

Mae athro'r dosbarth yn rhoi gwybod i'r rhieni am gynnydd pob plentyn yn ei ddosbarth, yn unol â pholisi'r ysgol gyfan. Hefyd, efallai y bydd athro'r dosbarth yn cysylltu â rhiant os oes pryderon am ymddygiad neu les plentyn.

Rôl y pennaeth

Y pennaeth sy'n gyfrifol, o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998, am roi'r polisi ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson trwy gydol yr ysgol, ac i roi gwybod i lywodraethwyr, pan ofynnir, ar effeithiolrwydd y polisi. Y pennaeth sy'n gyfrifol hefyd am sicrhau iechyd, diogelwch a lles yr holl blant yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn cefnogi'r staff trwy roi'r polisi ar waith, trwy bennu'r safonau ymddygiad, a thrwy gefnogi staff wrth roi'r polisi ar waith.

Mae'r pennaeth yn cadw cofnodion o'r holl achosion camymddwyn difrifol difrifol y rhoddwyd gwybod amdanynt.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am roi gwaharddiadau cyfnod penodol i blant unigol am gamymddygiad difrifol. Ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol sawl gwaith neu ddifrifol iawn, caiff y pennaeth wahardd plentyn yn barhaol. Mae'r ddau gam gweithredu hyn yn dilyn canllawiau'r sir.

Rôl rhieni

Mae'r ysgol yn cydweithio â rhieni, fel bod plant yn cael negeseuon cyson am sut mae ymddwyn gartref ac yn yr ysgol.

Rydym yn cyfeirio at reolau a nodau'r ysgol yn y Cytundeb Cartref Ysgol ac rydym yn disgwyl i rieni ddarllen y rhain a'u cefnogi.

Rydym yn disgwyl i rieni gefnogi addysg eu plentyn, ac i gydweithredu â'r ysgol. Rydym yn ceisio meithrin deialog gefnogol rhwng y cartref a'r ysgol, ac rydym yn rhoi gwybod i rieni ar unwaith os oes gennym bryderon am les neu ymddygiad eu plentyn.

Os oes rhaid i'r ysgol ddefnyddio cosbau rhesymol i gosbi plentyn, dylai rhieni gefnogi camau gweithredu'r ysgol. Os oes gan rieni unrhyw bryder am sut mae eu plentyn wedi'i drin, dylent gysylltu ag athro'r dosbarth i ddechrau. Os

oes pryder o hyd, dylent gysylltu â'r pennaeth. Os nad yw'r trafodaethau hyn yn gallu datrys y broblem, gellir rhoi proses gwyno neu apelio ffurfiol ar waith.

Rôl llywodraethwyr

Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu'r canllawiau cyffredinol hyn ar safonau disgyblaeth ac ymddygiad, ac am adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth wrth ddilyn y canllawiau hyn. Y pennaeth sydd ag awdurdod o ddydd i ddydd i roi polisi ymddygiad cadarnhaol yr ysgol ar waith, ond caiff llywodraethwyr roi cyngor i'r pennaeth am faterion disgyblu penodol. Mae'n rhaid i'r pennaeth ystyried hyn wrth benderfynu ar faterion ymddygiad.

Gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol

Dim ond y pennaeth (neu'r dirprwy bennaeth yn ei absenoldeb) sydd â'r grym i wahardd disgybl o ysgol. Caiff y pennaeth wahardd disgybl am un neu fwy o gyfnodau penodol, am hyd at 45 niwrnod mewn unrhyw un flwyddyn ysgol. Hefyd, caiff y pennaeth wahardd disgybl yn barhaol. Mae hefyd yn bosibl i'r pennaeth droi gwaharddiad cyfnod penodol yn waharddiad parhaol, os yw'r amgylchiadau'n gwarantu hyn.

Os yw'r pennaeth yn gwahardd disgybl, mae'n rhoi gwybod i'r rhieni ar unwaith, gan nodi'r rhesymau dros y gwaharddiad. Ar yr un pryd, mae'r pennaeth yn egluro i'r rhieni y cânt, os ydynt yn dymuno, apelio i'r corff llywodraethu yn erbyn y penderfyniad. Mae'r ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni am sut mae gwneud y fath apêl.

Mae'r pennaeth yn rhoi gwybod i'r AALI a'r corff llywodraethu am unrhyw waharddiad parhaol, ac am unrhyw waharddiad cyfnod penodol y tu hwnt i bum niwrnod mewn unrhyw dymor.

Ni chaiff y corff llywodraethu ei hun wahardd disgybl nac estyn cyfnod y gwaharddiad a wnaed gan y pennaeth.

Mae gan y corff llywodraethu bwyllgor disgyblu sy'n cynnwys rhwng tri a phum aelod. Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried unrhyw apêl yn erbyn gwaharddiad ar ran y llywodraethwyr.

Pan fo panel apêl yn cyfarfod i ystyried gwaharddiad, mae'n ystyried amgylchiadau'r disgybl a gafodd ei wahardd, sylwadau'r rhieni a'r AALI, ac a ddylid dod â gwaharddiad disgybl i ben.

Os yw panel apêl y llywodraethwyr yn penderfynu y dylid dod â gwaharddiad disgybl i ben, mae'n rhaid i'r pennaeth gydymffurfio â'r dyfarniad hwn.

Monitro

Mae'r pennaeth yn monitro effeithiolrwydd y polisi hwn yn rheolaidd. Mae hefyd yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethu am effeithiolrwydd y polisi ac, os oes angen, yn gwneud argymhellion am ragor o welliannau.

Mae'r ysgol yn cadw amrywiaeth o gofnodion am achosion camymddwyn. Mae athro'r dosbarth yn cofnodi digwyddiadau mân ystafell ddosbarth. Mae'r pennaeth yn cofnodi'r digwyddiadau pan anfonir plentyn ato oherwydd ymddygiad gwael. Rydym hefyd yn cadw cofnodion am unrhyw ddigwyddiad yn ystod amser egwyl neu amser cinio.

Mae'r pennaeth yn cadw cofnod o unrhyw ddisgybl sy'n cael ei wahardd am gyfnod penodol neu'n barhaol.

Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro'r gyfradd gwaharddiadau dros dro a pharhaol, a sicrhau bod polisi'r ysgol yn cael ei weinyddu'n deg ac yn gyson.

Cyfle Cyfartal ac Anabledd

Fel rhan o'n nod cyffredin i ddisgyblion gyrraedd eu potensial llawn ar draws y cwricwlwm, byddwn yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i gael mynediad i ddysgu yn y maes hwn yn unol â'n cynllun cyfle cyfartal ac anabledd.

Adolygiad

Mae'r corff llywodraethu, dan arweiniad UDRh yr ysgol, yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol.

I'w adolygu'n flynyddol.

Llofnod: Berian Wyn Jones

Dyddiad: May 2023



Canllawiau ar gyfer Perthnasoedd Da



- **Trin pob plentyn yn deg ac yn gyfartal**

Mae'n rhy hawdd neidio i gasgliadau anghywir am sefyllfa. Mae'n rhaid rhoi cyfle i bob plentyn esbonio'i ymddygiad. Peidiwch â gweithredu ar glecs; gweithredwch ar yr hyn rydych yn siŵr y gwelsoch yn unig.

- **Bod yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch**

Mae angen i blant eich gweld fel rhywun y mae'n hawdd mynd ato ac yn barod i wrando arnynt. Bydd agwedd oer neu bell yn eu hatal rhag mynd atoch.

- **Atgoffa o bryd i'w gilydd**

Mae plant yn aml yn anghofio rhai rheolau, e.e. rhedeg yn y coridor. Gair bach atgoffa i'w hatgoffa yw'r cyfan mae ei angen i unioni hyn.

- **Peidio â chyffroi**

Ceisiwch beidio â chyffroi bob tro. Bydd hyn yn eich helpu i aros yn awdurdodol a bod yn effeithiol.

- **Gwenu**



Ceisiwch gofio gwenu ar y plant, yna byddant yn eich gweld fel rhywun cynnes a chyfeillgar.

- **Ceisio sgwrsio**

Byddwch yn fodlon sgwrsio â'r plant am eu newyddion, eu diddordebau a'u gweithgareddau.

- **Rhoi canmoliaeth**

Mae canmoliaeth yn fwy effeithiol na beirniadaeth, felly ceisiwch ddefnyddio canmoliaeth yn fynych.

- **Rhoi cymhellion**

Dosbarthwch sticeri amser cinio arbennig neu gofynnwch i blant helpu.

- **Bod yn deg**

Byddwch yn deg gyda'r system gosbi – os na sylwoch chi ar y drafferth, peidiwch â dibynnu ar air plant eraill – treuliwch amser i siarad trwyddo, ond cadwch lygad amdano'n fwriadol.

- **Bod yn gwrtais**

Gosodwch esiampl dda i'r plant trwy siarad â nhw'n gwrtais.

- **Osgoi gwrthdaro**

Peidiwch â dadlau â phlentyn, mae hyn yn tanseilio'ch awdurdod. Ailadroddwch eich cais yn dawel, gan ddweud "diolch" ar y diwedd i bwysleisio ei fod yn fwy o orchymyn yr ydych yn disgwyl iddynt ei wneud, yna defnyddiwch eich system gosbi.

- **Helpu plentyn i dynnu'n ôl o sefyllfa anodd**

Os yw plentyn yn anghwrtais yn fwriadol, gofynnwch iddo ailadrodd yr hyn a ddywedodd. Neu dywedwch, "Dwi ddim yn credu i mi glywed yn iawn. Beth ddywedaist ti?" Mae hyn yn rhoi cyfle i'r plentyn dynnu'r datganiad yn ôl neu ymddiheuro. Derbyniwch unrhyw ymddiheuriad yn raslon a pheidiwch â pharhau i ddwrddio.

- **Ceisio peidio â gweiddi**

Osgowch weiddi ar bob adeg. Os yw lefel y sŵn yn uchel, gofynnwch i'r ysgol a oes ffyrdd eraill i chi gael tawelwch.

- **Peidio â choegi**

Peidiwch â bychanu plant trwy goegi – mae hyn yn arwain at ddicter.

- **Peidio â defnyddio labeli**

Peidiwch â rhoi labeli negyddol i blant, megis "drwg", "anghwrtais", neu "dwp". Dywedwch wrth y plentyn fod ei ymddygiad neu'r hyn mae wedi'i wneud yn annerbyniol. Cofiwch fod labeli'n "glynu".

- **Cadw llygad am blant unig**

Cadwch lygad am blant unig neu ynysig. Siaradwch â nhw a cheisiwch eu cynnwys mewn gemau gyda'r plant eraill.